

Tasg 1

Pedwar gwleidydd enwog o Gymru

1.

Pa ffeithiau sy'n eich synnu chi am rai o wleidyddion y gorffennol?

Oes rhai pethau sy'n gyffredin rhyngddyn nhw? Er enghraifft, edrychwch ar gefndir Keir Hardie ac Aneurin Bevan; a hefyd ar gefndir David Lloyd George a Gwynfor Evans.

2.

I ba bleidiau roedd y gwleidyddion yn y darn yn perthyn? Pa bleidiau nad ydynt i'w gweld yma?

Pa wleidydd/wleidyddion sydd â chysylltiad â:

- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- S4C
- Pensiynau
- Y Blaid Lafur
- Tryweryn
- Y Rhyfel Byd Cyntaf

3.

O'r darn, **dewiswch a chopiwch** y geiriau yn y darn sy'n golygu:

dechrau rhywbeth

rhywun sy'n gweithio mewn pwl glo

siarad â chynulleidfa

yn llawn tân

arian er mwyn mynd i astudio

garddwr sy'n gwerthu ei gynnyrch

rhywun sydd yn erbyn rhyfel

peidio â bwyta

4.

Ble mae'r menywod yn y rhestr hon, tybed? Beth yw'r rheswm pam nad oes unrhyw fenyw yma? Allwch chi feddwl am fenywod o Gymru yn y Senedd neu yn Nhŷ'r Cyffredin heddiw a fydd yn cael eu cofio yn y dyfodol?

5.

Ydy hi'n bwysig ein bod ni'n cofio am wleidyddion y gorffennol? Pam? / Pam lai?

Ymchwiliwch i weld ble mae cofebau i'r pedwar gwleidydd hyn.

6.

Mae Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy.

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Hamdden-Parciau-Digwyddiadau/Amgueddfeydd-ar-Celfyddydau/Amgueddfa-Lloyd-George.aspx>

- Gweithiwch allan faint sydd rhaid i'ch dosbarth chi ei dalu i fynd i mewn i'r amgueddfa.
- Darllenwch beth sydd ar gael yn yr amgueddfa. Beth fydddech chi'n hoffi ei weld yno?

Hyd yma, mae Cyngor Gwynedd wedi cyfrannu arian – £25,000 y flwyddyn – i helpu'r amgueddfa i aros ar agor. Mae hyn yn hanner y swm sydd ei angen bob blwyddyn. Ond mae'r cyngor wedi dweud nad yw'n gallu helpu'r amgueddfa yn y tymor hir. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud ym mis Ebrill 2017.

Beth yw'r dadleuon o blaid ac yn erbyn i Gyngor Gwynedd roi arian cyhoeddus i gadw Amgueddfa Lloyd George ar agor? Meddyliwch am y manteision a'r anfanteision i'r ardal, ac a ydych chi'n meddwl ei bod hi'n bwysig cofio am y pethau a wnaeth Lloyd George.

Dadleuon o blaid rhoi arian cyhoeddus i gadw Amgueddfa Lloyd George ar agor	Dadleuon yn erbyn rhoi arian cyhoeddus i gadw Amgueddfa Lloyd George ar agor

7.

Rhowch y gwleidyddion hyn yn y drefn y byddech chi'n hoffi cwrdd â nhw. Rhowch resymau dros eich trefn.

i.

Rheswm:

ii.

Rheswm:

iii.

Rheswm:

iv.

Rheswm:

v.

Rheswm:

Meddylwch am **dri** chwestiwn i'w holi i'r gwleidydd sydd ar frig eich rhestr.

i.

ii.

iii.

8.

Heb edrych ar y darn, llenwch y bylchau yn y paragraffau hyn. Gwiriwch eich gwaith wedyn drwy ei gymharu â'r darn.

Keir Hardie (1856–1915)

O Swydd Lanark yn yr _____ roedd Keir Hardie yn dod, ond bu'n
Seneddol dros Ferthyr Tudful. Roedd yn un o'r rhai a sefydlodd y Blaid
Annibynnol yn 1893, fe oedd Aelod Seneddol cyntaf y Blaid Lafur a bu'n Arweinydd hefyd.
Chafodd Keir Hardie ddim _____ pan oedd yn blentyn. Dechreuodd weithio gyda
phobydd _____ oedd yn wyth oed, yn dosbarthu bara. Pan oedd yn un ar ddeg
oed, aeth i weithio fel glöwr. Dysgodd ei hun i _____ ac ysgrifennu gyda help ei
rieni.

David Lloyd George (1863–1945)

Hyd yma, Lloyd George yw'r unig Gymro _____ sydd wedi bod yn Brif
_____ Prydain. Cafodd ei _____ yn Llanystumdwy, ger Cricieth, Dwyfor ac aeth i'r ysgol
gynradd yno.
Cafodd ei _____ fel cyfreithiwr. Pan gafodd ei ethol yn Aelod
y Rhyddfrydwyr dros Arfon yn 1890, fe oedd aelod ieuengaf Tŷ'r Cyffredin.
Cyfraniad mawr Lloyd George oedd cyflwyno'r Wladwriaeth Les. Ystyr hyn yw bod y wlad yn rhoi
_____ i bobl mewn angen fel y di-waith, pobl sâl a'r _____ (pensiynau).
Hefyd roedd yn siaradwr gwyb, ac yn _____ am ei areithiau tanbaid.

Aneurin Bevan (1897–1960)

Mae Aneurin Bevan yn enwog drwy Brydain am sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (NHS).

Cafodd ei eni yn Nhredegar. Glöwr oedd ei ac roedd Aneurin yn un o ddeg o Gadawodd yr ysgol yn ifanc a mynd i weithio yn y pwll glo yn 13 oed.

Yn 1945, ar ôl yr Ail Ryfel Byd, daeth Aneurin Bevan yn Weinidog dros yn y llywodraeth Lafur. Pasiwyd Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol Aneurin Bevan yn 1946, a chafodd y Gwasanaeth ei sefydlu yn 1948. Nawr, doedd dim rhaid i bobl am weld y meddyg neu am aros yn yr , roedd arian cyhoeddus yn talu am hynny.

Gwynfor Evans (1912–2005)

Yn y 1950au dechreuodd yn erbyn boddi pentref Cwm Celyn ger y Bala – cynllun i greu Tryweryn i roi i Lerpwl. Methodd yr ymgyrch hon, ond daeth llawer iawn o bobl i ddeall bod angen gofalu am gymunedau Cymraeg a'r iaith Daeth Plaid Cymru'n llawer mwy yn ystod ymgyrch Tryweryn.

Yn 1980, dywedodd y Llywodraeth Geidwadol nad oedd yn mynd i sefydlu pedwaredd Gymraeg fel roedd wedi addo. Felly, dechreuodd Gwynfor Evans ymrydio a bygwth llwgu ei hun i Newidiodd y Llywodraeth ei meddwl, a chafodd S4C ei yn 1982.